

## **Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 25 November 2024 at 6.30 pm Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams**

**Councillors Present:** Carrie Townsend Jones (Chair), Phil Keeton (Vice Chair), Sara Keeton and Helen Nelson

**Co-opted Members Present:** None

**Officers Present:** Paul Beynon - RFO and Ian Hughes - CSO

**EN2411-01 Apologies:** None

**EN2411-02 Declarations of Interest:** None

Cllr Helen Nelson joined the meeting at 18.36

**EN2411-03 Minutes of Previous Meeting of the Committee**

To approve the minutes of the meeting held on 28 October 2024 as a true record.

**RESOLVED** to approve the minutes of the meeting held on 28 October 2024 as a true record.

**EN2411-04 Actions arising from Previous Meetings**

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

**RESOLVED:** Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created and updated actions.

**RECOMMENDED:** That following planning permission being obtained from SCC and liaison between Friends of Clyne and Environmental Committee Members, The RFO to arrange the transfer of £6,000 to Friends of Clyne to contribute towards a gazebo being installed in Clyne Park.

**EN2411-05 Budget Monitoring Reports to 30/09/2024 - Paul Beynon, RFO**

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

The RFO highlighted key aspects of the reports, and no questions were raised. It was noted that there had been an underspent of approximately £200 in relation to bulb planting and it was **AGREED** that this would be divided between The Mayals and West Cross Wards.

**RESOLVED:** to approve the budget monitoring report to 30 September 2024.

**EN2411-06 Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:**

Summary of previous months activity and next steps for December.

Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had provided his monthly report to committee members. The Chair, Cllr Townsend Jones outlined key aspects of the report, the majority being detailed in agenda items below. Particular attention was given to the Big Climate Leap, and the setting up of a Working Group which was approved at November's Full Council. Cllrs Sara Keeton, Carrie Townsend Jones together with Robert Hernando have expressed an interest in participating within the Working Group. The Environmental Committee hoped that committee members from other committees would participate and that all four wards would be represented on the Group. Cllr O'Connor was mentioned as a suitable participant as was Cllr due to his environmental connections with SCC.

**ACTION:** CSO to e-mail both Cllrs O'Connor and Thomas and ascertain their willingness to participate.

There is to be a Keep Wales Tidy launch on Friday, 6<sup>th</sup> December at 11am at Blackpill. Robert Hernando is preparing a poster and the event advertised through the use of social media and the MCC Website.

Three of the seven primary schools within MCC have responded positively to Robert Hernando in relation to seeking environmental grants.

Plans for Jubilee Gardens have been drawn up will be forwarded to MCC within a few days by the designer.

Future volunteer days outlined including hedge planting at The Orchard on 5.12.24 and a litter pick on 6.12.24

**EN2411-07 Budget 2025/26**

The RFO outlined the draft budget spreadsheet to Committee and each budget line was discussed in detail including the new budget proposals.

**RESOLVED** that the budget for 2025/26 shown in the table below be recommended to Council at the budget meeting to be held in January 2025 subject to confirmation from Swansea Council on the cost for the Electric Vehicle.

**ACTION:** CSO to e-mail Robert Hernando and ascertain viability of setting up a fairy light repair workshop at Ostreme before Christmas.

Item	Amount £	RFO Auth
Civic Amenities - Street Furniture	2,500	
Bulbs and Wildflower Planting	2,000	
Jubilee Garden	100	
E&SEO Resources	2,000	✓
Norton Nature Reserve	1,000	
Climate Emergency	5,000	
Groundsperson - Maintenance Resources	2,000	✓
Mumbles Buzz and Bloom	500	
Mumbles Gardeners Question Time	500	
Mumbles Green Heroes	1,200	
Repair Cafe	400	
Biodiversity Crisis	1,000	
Biodiverse Schools Pilot	1,650	
SUDS and Flooding Awareness Campaign	3,150	
Incredible Edible Mumbles	6,300	
Electric Vehicle and Charging Point	19,400	
<b>Environmental - Draft Budget 2025/26</b>	<b>48,700</b>	

**EN2411-08 Promoting Volunteer Days**

Cllr Phil Keeton outlined how a leaflet drop within MCC would educate all residents on bio-diversity issues and good practices already taking place in parts of Mayals and West Cross including the use of sprays. It is hoped that such practices can be further encouraged in all wards including Newton and Oystermouth.

In addition the prospect of hosting a free 'swap shop' for plants at Norton Nature Reserve was also discussed.

**ACTION:** Cllr Phil Keeton to liaise with Robert Hernando over the creation of a suitable poster/leaflet with a view to a pamphlet drop commencing in February 2025.

**ACTION:** Cllr Sara Keeton to explore the possibility of holding plant 'swap shop' events at Norton Nature Reserve.

#### **EN2411-09 Mumbles Green Heroes**

The next event will be held on 3<sup>rd</sup> December 2024 at The Hub, Underhill. Arrangements are being progressed by Robert Hernando.

#### **EN2411-10 Gower National Landscape Advisory Group Update**

This item was deferred until the next meeting.

#### **EN2411-11 Litter Picking Dates for 2024/25**

As outlined in the Environmental Officer's report ([EN2411-06](#) refers) there is to be a litter pick on 6<sup>th</sup> December. In addition The Keep Wales Tidy launch will take place on Friday, 6<sup>th</sup> December at 11am at Blackpill.

#### **EN2411-12 Environmental Green Fair**

The Council had a stall at the Environmental Green Fair which was held at the National Waterfront Museum on the 23<sup>rd</sup> and 24<sup>th</sup> November 2024. The Chair, Cllr Townsend Jones expressed her thanks to those Councillors and Officers who staffed the stall. It was good that MCC was represented and other councils within Swansea were interested in MCC projects.

#### **EN2411-13 Climate Emergency Action**

A discussion took place on the need to progress this matter as a matter of urgency. A key aspect being coastal flooding for MCC.

**ACTION:** Cllrs Nelson, Townsend Jones and Sara Keeton together with Robert Hernando to create a workshop in 2025 with the aim of promoting practical measures to prevent flooding, incorporating existing good practice from national agencies.

#### **EN2411-14 Fly-tipping Action Wales – Toolkit Sharing**

This item was deferred until the next meeting.

**EN2411-15 West Cross Shed**

The shed has been donated to Swansea Cats and Kittens Protection Charity and arrangements are in hand for the shed to be collected.

**EN2411-16 Mumbles Skatepark Update**

This item was deferred until the next meeting.

**EN2411-17 MCC Website – SA1 and Social Media**

This item was deferred until the next meeting.

**Meeting ended at 7.41pm.**

**Next Meeting 27 January 2025**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Amgylcheddol a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2024 am 6.30pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams

**Cynghorwyr yn bresennol:** Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Phil Keeton (Is-gadeirydd), Sara Keeton a Helen Nelson

**Aelodau cyfetholedig yn bresennol:** Dim

**Swyddogion yn bresennol:** Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

**EN2411-01 Ymddiheuriadau:** Dim

**EN2411-02 Datganiadau o fuddiant:** Dim

Ymunodd y Cynghorydd Helen Nelson â'r cyfarfod am 6.36pm

**EN2411-03 Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2024 fel rhai cywir.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Hydref 2024 fel cofnod cywir.

**EN2411-04 Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol**

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau ddiweddariad i'r pwyllgor ar yr holl gamau gweithredu oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

**PENDERFYNWYD:** Camau gweithredu heb eu cwblhau wedi'u diweddarau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; manylion wedi'u cofnodi yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu sydd newydd eu creu a'u diweddarau.

**ARGYMHELLWYD:** Ar ôl cael caniatâd cynllunio gan Gyngor Dinas a Sir Abertawe a chyswllt rhwng Cyfeillion Clun ac aelodau'r Pwyllgor Amgylcheddol, dylai'r Swyddog Ariannol Cyfrifol drefnu i drosglwyddo £6,000 i Gyfeillion Clun i'w gyfrannu at osod gasebo ym Mharc Clun.

**EN2411-05 Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2024 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol**

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Tynnodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol sylw at agweddau allweddol ar yr adroddiadau, ac ni chodwyd unrhyw gwestiynau. Nodwyd y bu tanwariant o tua £200 wrth blannu bylbiau a **CHYTUNWYD** y byddai hwn yn cael ei rannu rhwng wardiau'r Mayals a West Cross.

**PENDERFYNWYD:** cymeradwyo adroddiad monitro'r gyllideb hyd at 30 Medi 2024.

**EN2411-06 Swyddog Amgylcheddol – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:**

Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Rhagfyr. Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd, wedi cyflwyno ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor. Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, agweddau allweddol ar yr adroddiad, gyda'r mwyafrif yn cael eu nodi yn yr eitemau agenda isod. Rhoddwyd sylw arbennig i Naid Fawr yr Hinsawdd, a sefydlu gweithgor a gymeradwywyd yng nghyngor llawn mis Tachwedd. Mae'r cynghorwyr Sara Keeton a Carrie Townsend Jones, ynghyd â Robert Hernando, wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn y gweithgor. Roedd y Pwyllgor Amgylcheddol yn gobeithio y byddai aelodau o bwyllgorau eraill yn cymryd rhan ac y byddai pob un o'r pedair ward yn cael eu cynrychioli ar y grŵp. Crybwyllwyd y Cynghorydd O'Connor fel cyfranogwr addas, felly hefyd y Cynghorydd Thomas oherwydd ei gysylltiadau amgylcheddol gyda Chyngor Dinas a Sir Abertawe.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon e-bost at y cynghorwyr O'Connor a Thomas a chanfod eu parodrwydd i gymryd rhan.

Bydd lansiad Cadwch Gymru'n Daclus ddydd Gwener 6 Rhagfyr am 11am yn Blackpill. Mae Robert Hernando wrthi'n paratoi poster ac mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls.

Mae tair o'r saith ysgol gynradd o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls wedi ymateb yn gadarnhaol i Robert Hernando ynglŷn â cheisio grantiau amgylcheddol.

Bydd cynlluniau ar gyfer Gerddi'r Jiwbil yn cael eu hanfon ymlaen at Gyngor Cymuned y Mwmbwls o fewn ychydig ddyddiau gan y dylunydd.

Amlinellwyd gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn y dyfodol, gan gynnwys plannu gwrychoedd yn y Berllan ar 5 Rhagfyr 2024 a sesiwn codi sbwriel ar 6 Rhagfyr 2024.

**EN2411-07 Cyllideb 2025/26**

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol daenlen y gyllideb ddrafft i'r pwyllgor a thrafodwyd pob llinell o'r gyllideb yn fanwl, gan gynnwys cynigion newydd y gyllideb.

**PENDERFYNWYD** argymhell y gyllideb ar gyfer 2025/26 a ddangosir yn y tabl isod i'r cyngor yn y cyfarfod ar y gyllideb a gynhelir ym mis Ionawr 2025, yn amodol ar gadarnhad gan Gyngor Abertawe ar gost y cerbyd trydan.

**CAM GWEITHREDU:** Y Swyddog Cymorth Pwyllgorau i anfon e-bost at Robert Hernando i ganfod ymarferoldeb sefydlu gweithdy trwsio goleuadau tylwyth teg yn Ostreme cyn y Nadolig.

Eitem	Swm £	Awdurdodwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol
Mwynderau dinesig - celfi stryd	2,500	
Bylbiau a phlannu blodau gwyllt	2,000	
Gardd y Jiwbilî	100	
E&SEO - Adnoddau	2,000	✓
Gwarchodfa Natur Norton	1,000	
Yr argyfwng hinsawdd	5,000	
Tirmon - adnoddau cynnal a chadw	2,000	✓
Su'r Mwmbwls yn ei Blodau	500	
Hawl i Holi Garddwyr y Mwmbwls	500	
Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls	1,200	
Caffi trwsio	400	
Argyfwng bioamrywiaeth	1,000	
Peilot ysgolion bioamrywiol	1,650	
Ymgrych systemau draenio cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o lifogydd	3,150	
Bwyd Bendigedig y Mwmbwls	6,300	
Cerbyd trydan a man gwefru	19,400	
<b>Amgylcheddol - Cyllideb Ddrafft 2025/26</b>	<b>48,700</b>	

**EN2411-08 Hyrwyddo diwrnodau gwirfoddoli**



Amlinellodd y Cynghorydd Phil Keeton sut y byddai dosbarthu taflenni o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn addysgu'r holl drigolion ar faterion bioamrywiaeth a bod arferion da eisoes mewn rhannau o'r Mayals a West Cross, gan gynnwys y defnydd o chwistrellau. Y gobaith yw y gellir annog arferion o'r fath ymhellach ym mhob ward, gan gynnwys Newton ac Ystumllwynarth.

Yn ogystal, trafodwyd y posibilrwydd o gynnal siop cyfnewid planhigion yng Ngwarchodfa Natur Norton.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Phil Keeton i gysylltu â Robert Hernando ynghylch creu poster/taflen addas gyda'r bwriad o ddsbarthu pamffledi, gan ddechrau ym mis Chwefror 2025.

**CAM GWEITHREDU:** Y Cynghorydd Sara Keeton i archwilio'r posibilrwydd o gynnal digwyddiadau cyfnewid planhigion yng Ngwarchodfa Natur Norton.

#### **EN2411-09 Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls**

Cynhelir y digwyddiad nesaf ar 3 Rhagfyr 2024 yn yr Hyb, Underhill. Mae trefniadau'n mynd rhagddynt dan ofal Robert Hernando.

#### **EN2411-10 Diweddariad ar Grŵp Cynghori ar Dirwedd Genedlaethol Gŵyr**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

#### **EN2411-11 Dyddiadau casglu sbwriel ar gyfer 2024/25**

Fel yr amlinellwyd yn adroddiad y Swyddog Amgylcheddol (y cyfeirir ato yn [EN2411-06](#)), bydd sesiwn codi sbwriel ar 6 Rhagfyr. Yn ogystal, bydd lansiad Cadwch Gymru'n Daclus yn cael ei gynnal ddydd Gwener 6 Rhagfyr am 11am yn Blackpill.

#### **EN2411-12 Y Ffair Werdd Amgylcheddol**

Roedd gan y cyngor stondin yn y Ffair Werdd Amgylcheddol a gynhaliwyd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar 23 a 24 Tachwedd 2024. Mynegodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, ei diolch i'r cynghorwyr a swyddogion hynny oedd yn staffio'r stondin. Roedd yn dda bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn cael ei gynrychioli, ac roedd gan gynghorau eraill yn Abertawe ddiddordeb ym mhrosiectau'r cyngor.

#### **EN2411-13 Gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd**

Cafwyd trafodaeth ar yr angen i symud y mater hwn yn ei flaen fel mater o frys. Agwedd allweddol i Gyngor Cymuned y Mwmbwls oedd llifogydd arfordirol.

**CAM GWEITHREDU:** Y cynghorwyr Nelson, Townsend Jones a Sara Keeton, ynghyd â Robert Hernando, i greu gweithdy yn 2025 gyda'r nod o hyrwyddo mesurau ymarferol i atal llifogydd, gan ymgorffori arfer da gan asiantaethau cenedlaethol.

**EN2411-14 Taclo Tipio Cymru - rhannu pecyn cymorth**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

**EN2411-15 Sied West Cross**

Mae'r sied wedi'i rhoi i elusen gwarchod cathod a chathod bach Abertawe (Swansea Cats and Kittens) ac mae trefniadau yn eu lle i gasglu'r sied.

**EN2411-16 Diweddariad ar Barc Sglefrio'r Mwmbwls**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

**EN2411-17 Gwefan Cyngor Cymuned y Mwmbwls - SA1 a'r cyfryngau cymdeithasol**

Gohiriwyd yr eitem hon tan y cyfarfod nesaf.

**Daeth y cyfarfod i ben am 7.41pm.**

**Cyfarfod nesaf 27 Ionawr 2025**